

## **Tystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon (TCA)**

### **Adroddiad y Prif Arholwr ar y Cymedroli 2016-17**

Eleni eto, mae fy niolch pennaf i Joanna Evans a Catrin Williams yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am eu gwaith gweinyddol ar y Dystysgrif yn ystod y flwyddyn. Bu'n fraint cydweithio â Marian Thomas, y cymedrolwr cynradd, a Manon Wyn Siôn, Marged Cartwright, Sian Alwen a Geraint Williams, y cymedrolwyr uwchradd, a hynny'n hwylus dros ben.

Cynyddodd y gwaith cymedroli eleni, fel y gwelir isod, felly hoffwn ddiolch yn benodol i Manon Wyn Siôn am drefnu'r daith gymedroli uwchradd ac i weinyddwyr y CCC ar y cyd ag arweinwyr y tair canolfan hyfforddi, Gwawr Maelor, Sioned Dafydd a Linda Davies am drefnu'r teithiau cymedroli cynradd. Nid ar chwarae bach y mae rhoi sampl at ei gilydd sy'n cynrychioli'r gwahanol safonau a sicrhau bod y daith yn un ddaearyddol gall i'r cymedrolwyr.

Roedd y croeso yn yr ysgolion yn gynnes a hoffwn ddiolch ar fy rhan fy hun ac ar ran y cymedrolwyr am bob cefnogaeth gan y mentoriaid iaith yn yr ysgolion uwchradd a'r mentoriaid dosbarth yn yr ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw. Daeth cynrychiolwyr o rai o'r canolfannau allan i'n croesawu hefyd, a gwerthfawrogwyd hynny'n fawr hefyd.

Hoffwn ddiolch yn fawr yn ogystal i diwtoriaid y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a fu wrthi'n marcio'r papurau arholiad.

#### **Gwaith gweinyddol a hyfforddiant**

Diwygiwyd dogfennaeth y Dystysgrif rywfaint eleni. Paratowyd Pecyn Hyfforddi Athrawon yn yr hydref. Addaswyd y meini prawf ar gyfer y papur ysgrifenedig a'r asesiad o allu hyfforddeion i addysgu'n ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg fel bod marciau ynghlwm wrthynt. Fel y llynedd, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd drwy gyswllt fideo ac wyneb yn wyneb er mwyn trafod gweithdrefnau, gyda chynrychiolwyr y canolfannau, y cymedrolwr cynradd, Manon Siôn ar ran y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg a'r prif arholwr yn bresennol.

Cynhaliwyd bore o hyfforddiant i farcwyr y papurau arholiad er mwyn cytuno ar safonau.

#### **Niferoedd cyffredinol**

Safodd cyfanswm o 178 o hyfforddeion y Dystysgrif eleni, sy'n gynydd o 33 o'i gymharu â niferoedd y llynedd.

Dyma tabl sy'n dangos y **dyfarniadau terfynol cyffredinol dros y cynradd a'r uwchradd**, yn genedlaethol a fesul canolfan dros y Dystysgrif gyfan.

	Cenedlaethol		De Orllewin		De Ddwyrain		Gogledd	
<b>Anfoddfaol</b>	26	15%	9	17.3%	14	27%	3	4%
<b>Digonol</b>	40	22%	10	19.2%	17	33%	13	17%
<b>Da</b>	73	41%	22	42.3%	10	20%	41	55%
<b>Rhagorol</b>	39	22%	11	21.2%	10	20%	18	24%
<b>CYFANSWM</b>	<b>178</b>		<b>52</b>		<b>51</b>		<b>75</b>	

## 1. UWCHRADD

Safodd 73 o hyfforddeion uwchradd y Dystysgrif eleni, o'i gymharu â 56 y llynedd.

Yn rhan o'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, cafodd pob un o'r hyfforddeion hyn:

- sesiynau Gloywi Iaith yn eu canolfannau eu hunain,
- dau gwrs undydd (yn Aberystwyth),
- hyfforddiant ac adroddiadau ar arsylwadau gwersi gan fentoriaid iaith arbenigol (aelodau o adrannau Cymraeg fel arfer) yn ystod eu dau gyfnod o brofiad ysgol.

Dyma tabl sy'n dangos y **dyfarniadau uwchradd terfynol dros y Dystysgrif gyfan**, yn genedlaethol a fesul canolfan ac yn genedlaethol:

	Cenedlaethol		De Orllewin		De Ddwyrain		Gogledd	
<b>Anfoddfaol</b>	7	9.5%	4	20%	3	12%	0	0%
<b>Digonol</b>	23	31.5%	7	35%	12	48%	4	14%
<b>Da</b>	24	33%	7	35%	3	12%	14	50%
<b>Rhagorol</b>	19	26%	2	10%	7	28%	10	36%
<b>CYFANSWM</b>	<b>73</b>		<b>20</b>		<b>25</b>		<b>28</b>	

### 1.1 Asesiad o allu'r hyfforddeion uwchradd i addysgu'n ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg

- **Safon llythrennedd personol**
- **Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr**

#### Cyrhaeddiad yr hyfforddeion uwchradd:

Anfoddfaol: 3%  
 Digonol: 41%  
 Da: 40%  
 Rhagorol: 16%

O edrych ar farciau'r hyfforddeion dros y ddwy elfen, roedd **tuedd gyffredinol** i farciau'r elfen gyntaf (safon llythrennedd personol) fod yn uwch na'r ail elfen (y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr). O bosib fod hyn oherwydd diffyg profiad addysgu'r hyfforddeion a bod yr ail elfen yn un a fydd yn datblygu wrth iddynt fagu profiad yn yr ystafell ddosbarth.

### **Trefniadau'r ymweliadau cymedroli uwchradd**

Ar sail yr adroddiadau gwersi manwl a chyson a'r adroddiadau crynodol gan y mentoriaid iaith ar ddiwedd ail gyfnod y profiad ysgol, trefnodd Manon Siôn, Cydlynnydd Cenedlaethol y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, daith gymedroli i arsylwi gwers yr un gan **27 hyfforddai o'r garfan o 73 hyfforddai (37%)**. Llwyddwyd i weld tri hyfforddai a oedd yn cynrychioli pob gradd ym mhob un o'r tair canolfan. Sicrhawyd bod y cymedrolwyr yn cymedroli ar y cyd mewn o leiaf un wers. Cyn dechrau, cynhaliwyd cyfarfod ffôn i gadarnhau'r trefniadau ac i sicrhau cysondeb yn ystod y broses.

Y cymedrolwyr a arsylwodd ar wersi'r hyfforddeion oedd:

- Manon Siôn, Cydlynnydd Cenedlaethol y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg;
- Marged Cartwright, Sian Alwen Newsham a Geraint Williams, y tri'n Benaethiaid Cynorthwyol a oedd hefyd yn fentoriaid iaith yn eu hysgolion eu hunain;
- Elin Meek, prif arholwr, a arsylwodd wersi gan un hyfforddai o bob gradd ym mhob canolfan, sef cyfanswm o 9 hyfforddai.

Gwelodd y prif arholwr:

- daenlen lawn o farciau'r hyfforddeion cyn mynd allan i arsylwi;
- adroddiadau o arsylwadau gwersi ac adroddiadau crynodol y mentoriaid iaith ar yr hyfforddeion a gymedrolwyd ganddi cyn mynd allan i arsylwi;
- adroddiadau unigol ar bob un o'r gwersi a welodd y cymedrolwyr (18 i gyd).

### **Sylwadau cyffredinol am y cymedroli uwchradd:**

- Wrth gymedroli, daeth yn amlwg fod y cymedrolwyr yn **cytuno â marciau'r mentoriaid iaith yn gyffredinol**, hynny yw o ran gradd yr hyfforddeion yn y pen draw, er y nodwyd ar dro fod marc fymryn yn hael neu fymryn yn llym. Gan fod y cymedrolwyr yn dod i farn ar sail arsylwi un wers yn unig, barnwyd na ddylid rhoi gormod o bwys ar hyn.
- O bosib fod tuedd i fod fymryn yn hael:
  - pan oedd hyfforddai wedi ymdrechu'n galed ac wedi gwneud cynnydd mawr (yn enwedig y rhai a oedd yn dod o gefndir teuluol di-Gymraeg ac wedi dilyn cwrs gradd drwy gyfrwng y Saesneg), neu

- pan oedd yr hyfforddai'n rhagori tipyn ar yr hyfforddeion eraill a oedd yn yr ysgol ar y pryd neu a oedd wedi bod yno yn ystod y gorffennol agos.
- Ar y llaw arall, efallai fod tuedd i fod fymryn yn llym:
  - pan oedd hyfforddai'n tangyflawni a/neu heb ddangos cymaint o ymrwymiad â'r disgwyl i wella.
- Yn dilyn sylwadau'r llynedd, roedd cynnwys y ffeiliau'n unffurf o'r naill ganolfan i'r llall eleni, gyda thystiolaeth o adnoddau a baratowyd a thasgau wedi'u hasesu. Roedd rhai eithriadau lle roedd diffyg tystiolaeth, e.e. o dasgau wedi'u hasesu.
- Er bod tystiolaeth fod Cysill yn cael ei ddefnyddio'n helaeth, gwelwyd enghreifftiau, hyd yn oed gyda'r hyfforddeion rhagorol, lle na wnaed hynny'n gyson. Roedd hyn yn bryder arbennig pan oedd deunyddiau gwallus yn cael eu rhoi i ddisgyblion. Weithiau nid oedd Cysill ar gyfrifiaduron yr ysgol lle roedd rhai hyfforddeion yn paratoi eu gwersi.
- Nododd un cymedrolwr nad oedd wedi gweld cymaint o dystiolaeth fod hyfforddeion yn cyflwyno tasgau llythrennedd yn gyson yn eu gwersi (o'u cymharu â thasgau iaith). Nododd y byddai pwyslais ar hyn yn ystod eu blwyddyn gyntaf fel Athrawon Newydd Gymhwysu ac y byddai'n dda gweld sylw penodol i lythrennedd yn eu ffeiliau fel hyfforddeion.
- Roedd hi'n braf clywed am hyfforddeion a oedd wedi defnyddio eu harbenigedd pwnc i helpu adran Gymraeg ysgol uwchradd i greu deunyddiau.
- Nododd mentoriaid iaith a chymedrolwyr fod disgyblaeth hyfforddeion ar ddosbarth yn gallu dioddef o achos diffygion yn eu defnydd o dôn llais a'u diffyg 'presenoldeb'. Mae'r rhain yn nodweddion personol y mae angen dysgu eu datblygu a'u cymhwysu at ddibenion addysgu. O fethu gwneud hyn, a methu cynnal disgyblaeth, mae cynnwys addysgol y wers (yn gyffredinol, ac o ran datblygu sgiliau llythrennedd ac iaith) yn dioddef. Felly, o dan yr ail elfen (Y gallu i gymhwysu a datblygu llythrennedd dysgwyr) y dylai hyfforddai golli marciau. Un ffactor a all gymhlethu pethau o ran y cymedrolwr/prif arholwyr yw bod peth anghysondeb o ran a oedd athro pwnc neu fentor iaith yn arsylwi ar y cyd ag ef/hi. Lle roedd athro'n bresennol, roedd hi'n gallu bod yn anodd penderfynu pa un ai'r hyfforddai ynteu'r athro a oedd yn 'bresenoldeb' a ddylanwadai ar ddisgyblaeth y wers.
- Fel y llynedd, nododd rhai mentoriaid iaith fod yr ystod 'Rhagorol' yn cwmpasu ystod fawr o farciau (30 marc).

Mae'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn rhoi cyfle gwerthfawr ychwanegol i'r hyfforddeion uwchradd, o'u cymharu â'r hyfforddeion cynradd, yn enwedig felly o ran y cyrsiau undydd a'r sylw arbenigol a gânt gan y mentoriaid iaith yn ystod eu profiadau ysgol. Gwelwyd dro ar ôl tro enghreifftiau o hyfforddeion a oedd wedi gwneud cynnydd clodwiw yn ystod y flwyddyn. Roedd hi'n chwith cael gwybod am enghraifft o un hyfforddai fel hyn a benderfynodd (a hynny'n gwbl ddealladwy) dderbyn y swydd gyntaf a gynigiwyd iddo mewn ysgol Saesneg ar ôl gwneud ymdrech a chynnydd da yn ystod y flwyddyn.

## **Argymhellion o ran yr Aseiad o allu'r hyfforddeion uwchradd i addysgu'n ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg**

- Mae'n bryder mai digonol neu is yw safon 44% o'r hyfforddeion. Er bod hyfforddeion 'Digonol' wedi gwneud cynnydd, mae angen cynhaliaeth arnynt eto er mwyn cyrraedd safon Da. Byddai'n dda gweld cyllid yn cael ei ddarparu fel bod athrawon 'Digonol' newydd gymhwyso'n parhau i gael cymorth gan fentoriaid iaith yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, nid yn unig o ran llythrennedd personol ond hefyd er mwyn cynllunio a datblygu llythrennedd y dysgwyr.
- Rhannu'r dyfarniad 'Rhagorol' yn ddwy ystod: Rhagorol Uwch (85%+) a Rhagorol.
- Bydd y prif arholwr yn darparu crynodeb o adroddiadau'r cymedrolwyr ar ffurf arferion da a'r gwallau a glywyd/a welwyd gan obeithio y byddant yn sail i ddeunyddiau ar gyfer addysgu hyfforddeion y dyfodol. Bydd yn hyn cynnwys enghreifftiau o wallau iaith na ddylid eu gweld/eu clywed fel arfer ar safon graddau 'rhagoriaeth' a 'da' er mwyn sicrhau cysondeb.

### **1.2 Aseiad o sgiliau Cymraeg ysgrifenedig yr hyfforddeion uwchradd**

Paratowyd un papur ysgrifenedig uwchradd eleni.

Dyma'r canrannau sy'n dangos cyrhaeddiad yr hyfforddeion uwchradd yn genedlaethol **yn y papur ysgrifenedig**:

<b>Anfoddhaol:</b>	6%
<b>Digonol:</b>	32%
<b>Da:</b>	31%
<b>Rhagorol:</b>	31%

Gwelodd y prif arholwr bob sgrïpt a oedd yn methu, pob un o'r sgrïptiau ffiniol (rhwng dwy safon) a sampl o sgrïptiau gan bob marciwr.

#### **Rhai sylwadau cyffredinol:**

- Yng nghwestiwn 2 (Trawsieithu) nododd un marciwr ei bod hi'n ymddangos i rai hyfforddeion gael cyfarwyddyd i osod y trawsieithiad ar ffurf prif bwyntiau ac isbwyntiau (fel sy'n digwydd yn y daflen a roddir i'r marcwyr). Teimlai fod dewis rai union brif bwyntiau ac isbwyntiau yn ei gwneud yn fwy heriol iddyn nhw nag i fyfyrwyr eraill nad oeddent yn gwneud hyn. Hefyd, weithiau, roedd gosod y pwyntiau fel hyn yn golygu nad oedd y trawsieithiad yn llifo cystal ag y gallai fod wedi gwneud, e.e. efallai i prif bwynt ac is-bwynt a fyddai wedi bod yn fwy effeithiol o'u gosod gyda'i gilydd gael eu gwahanu.

- Er i'r hyfforddeion ddefnyddio Cysill yng Nghwestiwn 1 (Cywiro), penderfynodd rhai beidio â'i ddefnyddio i wirio'r ddau gwestiwn arall. O ganlyniad, collwyd marciau o dan y maen prawf 'cywirdeb ac arfau iaith cyfrifiadurol'.
- Mae canran yr hyfforddeion uwchradd o safon annigonol neu ddigonol yn y papur arholiad (38%) yn lled debyg i ganran y rhai o safon annigonol neu ddigonol yn yr asesiad o'u gallu i addysgu'n ymarferol (44%).

### **Argymhellion y papur ysgrifenedig uwchradd**

- Mae angen edrych eto ar y maen prawf 'ateb gofynion y dasg', a naill ai cwtochi ar y marciau sydd wedi'u neilltuo iddo neu gynnwys y pwyntiau sydd ynddo o dan benawdau eraill.
- Ystyried rhannu'r ystod Rhagorol, gan ychwanegu Rhagorol Uwch.
- Peidio â pharatoi papurau ar wahân i'r cynradd a'r uwchradd, ond efallai gynnig dewis yng Nghwestiwn 3 (Ysgrifennu Rhydd) a fyddai'n gweddu i'r ddau sector.
- Eleni, rhannwyd y gwaith o farcio'r papurau ysgrifenedig cynradd ac uwchradd rhwng 5 marciwr. Er bod y prif arholwr yn hapus fod y marciau'n adlewyrchu safon y sgriptiau ar sail y sampl a welwyd, byddai'n well eto petai un marciwr yn marcio'r papurau ysgrifenedig i gyd, er mwyn sicrhau cysondeb llwyr.

## 2. CYNRADD

Safodd 105 o hyfforddeion cynradd y Dystysgrif eleni, sy'n gynnydd o 16 o'i gymharu â nifer y llynedd.

Cafodd pob un o'r hyfforddeion hyn:

- sesiynau Gloywi laith yn eu sefydliadau eu hunain.

Dyma dabl sy'n dangos y **dyfarniadau cynradd terfynol dros y Dystysgrif gyfan**, yn genedlaethol a fesul canolfan:

	Cenedlaethol		De Orllewin		De Ddwyrain		Gogledd	
Anfoddhaol	19	18%	5	16%	11	42%	3	6%
Digonol	17	16%	3	9%	5	19%	9	19%
Da	49	47%	15	47%	7	27%	27	57%
Rhagorol	20	19%	9	28%	3	12%	8	17%
<b>CYFANSWM</b>	<b>105</b>		<b>32</b>		<b>26</b>		<b>47</b>	

### 2.1 Asesiad o allu'r hyfforddeion cynradd i addysgu'n ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg

- Safon llythrennedd personol
- Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr

#### Cyrhaeddiad yr hyfforddeion cynradd:

Anfoddhaol: 6%

Digonol: 20%

Da: 49%

Rhagorol: 25%

Fel yn achos yr hyfforddeion uwchradd, roedd **tuedd gyffredinol** i farciau'r elfen gyntaf (safon llythrennedd personol) fod yn uwch na'r ail elfen (y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr).

#### Trefniadau'r ymweliadau cymedroli cynradd

Cynyddodd nifer yr ymweliadau cymedroli eleni, wrth i Marian Thomas, y cymedrolwr cynradd, arsylwi gwersi gan 25 hyfforddai (**24% o'r garfan o 105 o fyfyrwyr**).

- 6 yng Nghanolfan y De-ddwyrain (3 gyda'r prif arholwr) Methwyd gweld un hyfforddai oherwydd bod cyfweiliad ganddi.
- 7 yng Nghanolfan y De-orllewin (3 gyda'r prif arholwr) Methwyd gweld un hyfforddai oherwydd salwch.
- 12 yng Nghanolfan y Gogledd (4 gyda'r prif arholwr).

Roedd yr hyfforddeion hyn yn amlygu'r ystod o raddau llwyddo (Rhagorol, Da a Digonol).

## Sylwadau am y cymedroli cynradd

- Oherwydd amrywiaeth yn hyd y cyfnod yr oedd yr hyfforddeion wedi bod ar brofiad addysgu proffesiynol cyn i'r cymedrolwr a'r prif arholwr fynd ar daith, roedd anghysondeb o ran y wybodaeth a'r ddogfennaeth a ddarparwyd gan y canolfannau ynghylch yr hyfforddeion i'w harsylwi. Roedd hyn yn amrywio o set gyflawn o farciau hyfforddeion y ganolfan i gyd a ffurflenni Grid Asesu'r hyfforddeion i'w cymedroli wedi'u llenwi, i farciau'r hyfforddeion i'w cymedroli'n unig.
- At ei gilydd, roedd y cymedrolwr (a'r prif arholwr pan oedd yn bresennol) **yn cytuno â'r marciau a ddyfarnwyd**, er y barnwyd ar brydiau fod marc ychydig yn hael neu ychydig yn llym. Oherwydd yr angen i gyflwyno marciau i'r CCC dyfarnwyd marciau yn gynnar a rhai hyfforddeion wedi gwneud cynnydd sylweddol erbyn yr ymweliad cymedroli. Yn achos **dau hyfforddai**'n unig o'r 25 a arsylwyd y byddai'r cymedrolwr a'r prif arholwr wedi gostwng y marc, o Da i Digonol.
- Cafwyd trafodaeth fuddiol â'r mentor dosbarth ym mhob achos, ac yn ystod rhai ymweliadau yng nghanolfan y Gogledd daeth tiwtor coleg yr hyfforddai i gwrdd â'r cymedrolwr ac mewn sawl achos cymedrolwyd ar y cyd.
- Roedd y mentoriaid dosbarth yn gefnogol, er bod y mewnbwn ieithyddol y gallent ei roi'n amrywio a'u disgwyliadau o ran y ddwy elfen yn amrywio'n fawr hefyd.
- Ar brydiau, o ran cymedroli'r marc am y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr, roedd hi'n anodd cymharu gwrs yn y Cyfnod Sylfaen lle roedd hybu sgiliau llythrennedd a sgiliau iaith yn benodol yn rhan greiddiol o'r wers, â gwrs yng Nghyfnod Allweddol 2 lle roedd llai o gyfle i wneud hynny.
- Ymddengys fel petai'r drefn yn amrywio rhwng y tair canolfan o ran:
  - i) pwy sy'n pennu marc addysgu ymarferol TCA (a) y tiwtor coleg ar y cyd â'r mentor dosbarth, b) y mentor dosbarth ar ei ben ei hun neu c) y tiwtor coleg ar ei ben ei hun), ac
  - ii) a yw'r hyfforddeion yn ymwybodol o'r marc a roddwyd iddynt, a
  - iii) phan fydd y tiwtor coleg yn pennu'r marc ar ei ben ei hun, a yw'r mentor dosbarth yn ymwybodol ohono.
- Roedd cynnwys y ffeiliau'n fwy unffurf eleni, er na welwyd llawer o waith wedi'i farcio. Roedd rhai hyfforddeion wedi cynnwys ystod o adnoddau a baratowyd ganddynt ac eraill fawr ddim o enghreifftiau.
- Rhoddwyd canmoliaeth uchel gan hyfforddeion y tair canolfan i ansawdd yr hyfforddiant ieithyddol a chyffredinol a gawsant.

## Argymhellion o ran yr Asesiad o allu'r hyfforddeion cynradd i addysgu'n ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg

- Fel y nodwyd y llynedd, byddai'n dda sefydlu arferion cyffredin ledled y tair canolfan o ran pwy sy'n pennu marciau hyfforddeion am yr elfen hon o'r Dystysgrif.



- Yn ddelfrydol, er mwyn i hyfforddeion cynradd gael yr un cyfle â'u cymheiriaid uwchradd, byddai'n dda cael gwasanaeth 'mentor iaith' ym mhob ysgol gynradd i roi cymorth penodol iddynt godi eu safon yn nwy elfen y rhan hon o'r Dystysgrif. Gallai hyn fod ar ffurf mentor allanol neu fewnol. Fel y nodwyd y llynedd, byddai angen cyllid ychwanegol i wneud hynny, wrth gwrs.

## 2.2 Asesiad o sgiliau Cymraeg ysgrifenedig yr hyfforddeion cynradd

Paratowyd dau bapur ysgrifenedig cynradd fel bod hyfforddeion pob canolfan yn gallu sefyll yr arholiad ysgrifenedig yn ystod cyfnodau cyfleus.

Dyma'r canrannau sy'n dangos cyrhaeddiad yr hyfforddeion cynradd yn genedlaethol yn y papur ysgrifenedig:

<b>Anfoddhaol</b>	18%
<b>Digonol:</b>	25%
<b>Da:</b>	31%
<b>Rhagorol:</b>	26%

Gwelodd y prif arholwr bob sgrïpt a oedd yn methu, pob un o'r sgrïptiau ffiniol (rhwng dwy safon) a sampl o sgrïptiau gan bob marciwr.

### Rhai sylwadau cyffredinol:

- Er i rai ymgeiswyr ennill marciau llwyddo yng Nghwestiwn 2 a Chwestiwn 3, roedd eu marc isel iawn yng Nghwestiwn 1 yn golygu bod eu perfformiad cyffredinol yn y papur arholiad yn annigonol.
- Yng Nghwestiwn 2 (Trawsieithu), roedd tuedd i rai hyfforddeion anwybyddu'r cyfarwyddyd fod angen brawddegau llawn, hyd yn oed wrth ddefnyddio pwyntiau bwled.
- O ran cynnwys Cwestiwn 3 (Ysgrifennu Rhydd) nododd un marciwr nad oedd digon o sylw'n cael ei roi i'r pwynt bwled olaf lle roedd gofyn i'r hyfforddeion gynnig sylwadau mwy dadansoddol.
- Er i'r hyfforddeion ddefnyddio Cysill yng Nghwestiwn 1 (Cywiro), penderfynodd rhai beidio â'i ddefnyddio i wirio'r ddau gwestiwn arall. O ganlyniad, collwyd marciau o dan y maen prawf 'cywirdeb ac arfau iaith cyfrifiadurol'.
- Mae gwahaniaeth yn y cynradd rhwng y canran yr hyfforddeion sy'n anfoddhaol neu'n ddigonol yn yr asesiad o'u gallu i addysgu'n ymarferol (26%) a'r rhai sy'n anfoddhaol neu'n ddigonol yn yr asesiad o'u sgiliau Cymraeg ysgrifenedig (43%). Efallai bod y bwlch hwn oherwydd nad ydynt yn cael cymaint o fewnbwn â'r hyfforddeion uwchradd.

## Argymhellion y papur ysgrifenedig cynradd

- Mae angen edrych eto ar y maen prawf 'ateb gofynion y dasg', a naill ai cwtogi ar y marciau sydd wedi'u neilltuo iddo neu gynnwys y pwyntiau sydd ynddo o dan benawdau eraill.
- Ystyried rhannu'r ystod Rhagorol, gan ychwanegu Rhagorol Uwch.
- Peidio â pharatoi papurau ar wahân i'r cynradd a'r uwchradd, ond efallai gynnig dewis yng Nghwestiwn 3 (Ysgrifennu Rhydd) a fyddai'n gweddu i'r ddau sector.
- Eleni, rhannwyd y gwaith o farcio'r papurau ysgrifenedig cynradd ac uwchradd rhwng 5 marciwr. Er bod y prif arholwr yn hapus fod y marciau'n adlewyrchu safon y sgriptiau ar sail y sampl a welwyd, byddai'n well eto petai un marciwr yn marcio'r papurau ysgrifenedig i gyd, er mwyn sicrhau cysondeb llwyr.
- Byddai'n dda petai modd i'r hyfforddeion cynradd gael yr un cymorth ag y mae'r hyfforddeion uwchradd yn ei dderbyn.

Eto eleni, clywodd y cymedrolwyr a'r prif arholwr fod y Dystysgrif yn codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd safonau uchel o ran llythrennedd personol hyfforddeion a'u gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr. Credir felly ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau gan ei bod yn rhoi nod penodol i'r hyfforddeion anelu ato. Er y gwerthfawrogir bod y cwrs HCA yn un trwm iawn, o ran y dyfodol mae'n bwysig iawn fod safonau llythrennedd personol hyfforddeion yn y Gymraeg a safonau datblygu llythrennedd y dysgwyr yn y Gymraeg yn cael mwy o bwyslais yn gyffredinol ynddo. Byddai'n dda i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gael llais cryf yn y trafodaethau hyn er mwyn sicrhau nad rhywbeth ymylol yw'r TCA.

Elin Meek  
27 Mehefin 2017